# ADFYWIO BANGOR

03/2026

## DIWEDDARIADAU PROSIECTAU'R BARTNERIAETH

Trawsnewid Trefi
Transforming Towns

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

CYNGOR GWYNEDD




### CYLLID CRONFA EFFAITH BALCHDER BRO WEDI'I YMRWYMO AR GYFER GWELLIANNAU YM MANGOR

Bydd Bangor yn elwa o fuddsoddiad drwy Gronfa newydd, sef Cronfa Effaith Balchder Bro Llywodraeth y DU. Mae £1.5 miliwn wedi'i ddyrannu i Gyngor Gwynedd i gyflawni gwelliannau o gwmpas y sir erbyn mis Mawrth 2027. Mae amrywiaeth o brosiectau wedi'u cymeradwyo ym Mangor, gan gynnwys grantiau i wella blaen siopau, gwelliannau amgylcheddol ar hyd Ffordd y Coleg, a chefnogaeth i brosiectau tir gwyrdd megis Prosiect Gofod Awyr Agored Storiel. Nod y buddsoddiadau hyn yw gwella mannau cyhoeddus, cryfhau balchder cymunedol, a chefnogi adfywio parhaus y ddinas.




### DATBLYGIADAU PARTNERIAETH DDIWYLLIANNOL A THWRISTIAETH NEWYDD

Mae prosiect newydd wedi ei sefydlu i ffurfio is-grŵp diwylliannol a thwristiaeth ym Mangor, gan ddod â sefydliadau allweddol ynghyd i gryfhau cydweithio. Bydd y bartneriaeth yn canolbwyntio ar hyrwyddo a chyd-lynu gweithgareddau a digwyddiadau , gan gynnwys datblygu platfform digidol canolog. Nod y fenter hon yw cynyddu nifer yr ymwelwyr, codi ymwybyddiaeth o gynnig diwylliannol Bangor, a chefnogi economi dwristiaeth y ddinas. Mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer lansiad ffurfiol, a bydd grwpiau a sefydliadau perthnasol yn cael eu gwahodd i ymuno â rhwydwaith partneriaeth ehangach.




### CYNGOR GWYNEDD YN PARHAU GYDA CYNLLUN ADNEWYDDU EIDDDO AR STRYD FAWR BANGOR

Mae Menter Eiddo Gwag Bangor (BEPI) yn parhau gyda'r nod o ddod ag adeiladau gwag ar y stryd fawr yn ôl i ddefnydd. Mae bron i £1M wedi'i sicrhau drwy raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, gyda'r cynllun yn cefnogi landlordiaid preifat i adnewyddu eiddo, gan dalu hyd at 50% o gostau'r prosiect. Mae diddordeb cryf eisoes wedi'i ddangos, gyda nifer o geisiadau wedi'u derbyn a sawl eiddo yn symud ymlaen i'r cam nesaf, gan helpu i adfywio canol y ddinas.

# ADFYWIO BANGOR

03/2026

## DIWEDDARIADAU PROSIECTAU'R BARTNERIAETH

Trawsnewid Trefi
Transforming Towns


Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

CYNGOR GWYNEDD



### MAE DYLUNIADAU GWERSYLL RHUFEINIG BANGOR I WELLA PROFIAD YMWELWYR YN AGOS I'W CWBLHAU

Mae cynlluniau wedi'u datblygu i wella mynediad a phrofiad ymwelwyr yng Ngwersyll Rhufeinig Bangor, gan warchod ei gymeriad naturiol a hanesyddol. Wedi'i ariannu gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y Deyrnas unedig  a Rhaglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, mae'r gwelliannau arfaethedig yn cynnwys uwchraddio llwybrau, arwyddion newydd a byrddau dehongli. Mae'r gwaith dylunio bellach wedi'i gwblhau, a bydd yr ymdrechion yn canolbwyntio ar sicrhau cyllid i wireddu'r prosiect.



### TENNANT CAFFI NEWYDD YN DOD AG EGNI I STORIEL

Mae pennod newydd ar y gweill yn Storiel, wrth i'r tîm tu ôl i Caffi Siabod gymryd drosodd denantiaeth y caffi ar y safle. Yn gweithredu fel "Y  Siabod @ Storiel", agorodd y caffi ddydd Mawrth 10 Chwefror. Mae'r cynnig newydd yn darparu gofod hamddenol i ymwelwyr yr amgueddfa, trigolion lleol a thwristiaid, gan gyfarch arddangosfeydd, digwyddiadau a gweithgareddau addysgol Storiel.  Am fwy o wybodaeth ewch i https://www.facebook.com/MoelSiabodCafe/

### MAE CYNLLUNIAU'N PARAHU I WELLA GOFOD AWYR AGORED YN STORIEL

Mae'r dyluniadau bron wedi'u cwblhau i brosiect bydd yn gwella'r gofod cyhoeddus tu allan i Storiel, gan cryfhau y cysylltedd a chreu ardal fywiog ar gyfer digwyddiadau a defnydd cymunedol. Mae'r gwelliannau arfaethedig yn cynnwys mynedfeydd wedi'u huwchraddio, seddi newydd, goleuadau gwell, a datblygu amffitheatr awyr agored. Mae'r gwaith dylunio yn nesáu at gael ei gwblhau, gyda'r cam nesaf yn canolbwyntio ar sicrhau cyllid i gyflawni'r cynllun. Mae'r prosiect hwn wedi'i ariannu gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Chronfa Balchder Bro Llywodraeth y DU.



### ADOLYGIAD O DDARPARIAETH HAMDDEN YM MANGOR AR Y GWEILL

Mae adolygiad  o ddarpariaeth hamdden dan do ym Mangor ar y gweill ar hyn o bryd, dan arweiniad Cyngor Gwynedd mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol. Mae'r gwaith yn cynnwys asesu cyfleusterau presennol, dadansoddi'r galw, a datblygu opsiynau ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol, gyda ffocws penodol ar bwll nofio'r ddinas. Bydd canfyddiadau'r adolygiad yn helpu i lunio strategaeth hirdymor i sicrhau cyfleoedd hamdden cynaliadwy a hygyrch i'r gymuned. Mae'r prosiect hwn wedi'i ariannu gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y Deyrnas Unedig .

